gwlad i mi a

gwlad i ti...

TAFLEN ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL

Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

2008

www.gwladimi.co.uk

Yn 2005, dim ond 0.025% o'r holl ddinasyddion tramor a ddaeth i'r Deyrnas Unedig oedd yn geiswyr lloches.

Pwy sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches?

Mae Confensiwn Genefa 1951 yn diffinio ***ffoaduriaid*** *fel pobl sydd â rheswm da dros ofni erledigaeth oherwydd eu hil, crefydd, cenedl, aelodaeth o gr_p cymdeithasol neilltuol, neu farn wleidyddol, ac sydd y tu allan i'w mamwlad ac yn methu neu, oherwydd ofn o'r fath, yn amharod i ddychwelyd i'w mamwlad[1].*

Ceiswyr lloches : *yw pobl sy'n aros i'r llywodraeth ystyried eu cais i gael eu cydnabod fel ffoaduriaid.*

www.gwladimi.co.uk

Cefnogir y daflen etholiad llywodraeth leol hon gan: :

Achub y Plant, Cymru, Amnest Rhyngwladol, Asylum Justice, Church Action on Poverty, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Cytûn, Displaced People in Action, Grŵp Cefnogaeth Ceiswyr Lloches Bae Abertawe, Grŵp Cefnogaeth Ceiswyr Lloches Caerdydd, Grŵp Cefnogaeth Ffoaduriaid Casnewydd a'r Cylch, Llais Ffoaduriaid Cymru, Oxfam, Plant yng Nghymru, TUC Cymru.

ffoi rhag erledigaeth - pam eu bod yma?

- Daw ceiswyr lloches i'r Deyrnas Unedig i chwilio am nodded. Nid ydynt yn dod i'r DU i hawlio budd-daliadau ac mewn gwirionedd ychydig iawn a wyddant am y system lloches cyn iddynt gyrraedd[2]
- ***Dim ond tua 3% o ffoaduriaid y byd sy'n byw yn y Deyrnas Unedig - tua 290,000 o 8.4 miliwn yn fyd-eang***
- Mae tri chwarter ffoaduriaid y byd yn byw mewn gwledydd sy'n datblygu, yn aml mewn gwersylloedd. Mae dau draean o ffoaduriaid y byd yn byw yn Affrica ac Asia rhyngddynt. Dim ond am 18% sy'n byw yn Ewrop
- Yn 2006, roedd y DU yn 16eg yn y tabl cynghrair o wledydd diwydiannol am y nifer o geisiadau lloches fesul pen o'r boblogaeth
- Mae ceisiadau am loches i'r Deyrnas Unedig wedi gostwng gan bron dri chwarter dros y pum mlynedd ddiwethaf
- Mae ceiswyr lloches 25 oed neu drosodd yn cael £39.34 yr wythnos, mae'r rhai 18 i 25 oed yn cael £31.15. Mae hyn tua dau-draean lefel cymhorthdal incwm

ein cyfrifoldeb i roi nodded

- Confensiwn 1951 yn cyfeirio at statws ffoaduriaid oedd y gyfraith ryngwladol gyntaf i amlinellu sut y dylid trin ffoaduriaid
- ***Fe'i drafftiwyd mewn ymateb i erchyllterau'r Holocost pan wrthododd llawer o wledydd roi lloches i lddewon oedd yn ffoi, ac oherwydd y miliynau o bobl a ddaeth yn ffoaduriaid yn Ewrop yn ystod ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd***
- Llofnododd 134 o wledydd y cytundeb yn dweud y caiff cais am loches gan unrhyw un a gaiff eu gorfodi i ffoi rhag erledigaeth yn eu gwlad eu hunain ei glywed yn deg ac y cânt eu diogelu os ydynt angen hynny[3]

[1] Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (UNHCR)
[2] Cyngor Ffoaduriaid
[3] UNHCR

ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru

- Mae hyd at 3,000 o geiswyr lloches a dros 10,000 o ffoaduriaid yng Nghymru
- Caiff mwyafrif helaeth y ceiswyr lloches eu gwasgaru i: Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam
- Mae tua 110 o blant ar ben eu hunain yn ceisio lloches yng Nghymru - plant a gyrhaeddodd heb rieni neu warcheidwaid
- Mae tua 595 o deuluoedd yn ceisio lloches yng Nghymru gyda menyw yn bennaeth ar fwy na 400 ohonynt[4]

- ***Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ffurfio llai na 0.5% o boblogaeth Cymru***

- Ni chaniateir i geiswyr lloches weithio i gefnogi eu hunain, er bod llawer o ffoaduriaid yn weithwyr proffesiynol megis meddygon, peirianwyr ac athrawon a bod prinder y sgiliau hynny yng Nghymru

Dosbarthiad rhanbarthol ceiswyr lloches (yn cynnwys dibynyddion) mewn llety gwasgaredig yn ôl awdurdod lleol, fel ar ddiwedd Rhagfyr 2006



Cyfanswm y DU 36,365

byw mewn tlodi

- Mae dros 95% o bobl sy'n ceisio lloches yng Nghymru yn derbyn llety a chefnogaeth gan Wasanaethau Cenedlaethol Cymorth i Geiswyr Lloches a heb hyn, byddent ar y clwt

- ***Ni chaniateir i geiswyr lloches weithio os nad ydynt wedi aros dros 12 mis am benderfyniad dechreuol ar eu hachos. Gorfodir hwy i ddibynnu ar gymorth y wladwriaeth, sydd 30% yn is na lefel arferol cymhorthdal incwm. Mae llawer yn byw mewn tlodi ac yn profi afiechyd a newyn[5]***

- Nid oes gan fwyafrif helaeth y ceiswyr lloches y cafodd eu cais ei wrthod hawl i unrhyw ffynonellau cyfreithiol o incwm, ac maent ar y clwt, gan ddibynnu'n llwyr ar garedigrwydd ffrindiau, teulu a grwpiau cymunedol
- Mae nifer fechan o geiswyr lloches y cafodd eu cais ei wrthod yn gymwys am gefnogaeth dan Adran 4 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999. Dim ond llety ac un ai brydau bwyd neu dalebau y mae hyn yn ei ddarparu - dim arian
- Ni all llawer o geiswyr lloches y cafodd eu cais ei wrthod dychwelyd adref ar hyn o bryd oherwydd nad oes ffordd ddiogel iddynt ddychwelyd neu oherwydd y byddai eu bywydau dan fygythiad

[4] Consortiwm Cymru ar gyfer Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches a Mudwyr (WCRASM)
[5] Cyngor Ffoaduriaid

mynediad cyfyngedig i wasanaethau

- Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches ymysg y bobl sydd wedi eu hallgau fwyaf yn gymdeithasol ac sy'n fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas ym Mhrydain
- ***Ni ddaw cost cefnogi a chartrefi ceiswyr lloches o'r Dreth Cyngor leol. Mae'r Swyddfa Gartref yn talu am holl gostau llety a chymorth ceiswyr lloches yn unongyrchol i'r Cyngor a darparwyr tai yn y sector preifat***
- Nid oes gan geiswyr lloches sy'n cael cymorth tai unrhyw ddewis lle y cânt eu lletya. Nid yw'r llety a roddir i geiswyr lloches yn well na'r hyn a roddir i ddinasyddion y Deyrnas Unedig
- Ym mis Rhagfyr 2003, roedd tua 80,000 o geiswyr lloches yn derbyn cymorth gan y Swyddfa Gartref, o gymharu â thua 15.5 miliwn o Brydeinwyr yn derbyn budd-daliadau (ac eithrio pensiwn ymddeol), gan olygu mai 0.5% o'r rhai oedd yn hawlio cymorth gan y llywodraeth oedd yn geiswyr lloches
- Nid yw awdurdodau iechyd yn rhoi blaenoriaeth i geiswyr lloches dros bobl leol. Mae gan geiswyr lloches hawl i gofrestru gyda meddyg teulu lleol a derbyniant y rhan fwyaf o wasanaethau gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ond mae'n rhaid iddynt fynd drwy'r un prosesau ag unrhyw un arall. Ers 1 Ebrill 2004, bu'n rhaid i ymgeiswyr aflwyddiannus am loches dalu am ofal mewngleifion ysbyty nad oes angen brys amdano

ailadeiladu bywydau mewn gwlad newydd

Cafodd ffoaduriaid a cheiswyr lloches eu gorfodi i ffoi o'u cartrefi a wynebu her anodd wrth ailadeiladu eu bywydau mewn gwlad newydd. Mae'r rhan fwyaf o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cyrraedd heb ychydig iawn neu ddim rhwydweithiau teuluol neu gyfeillion a maent yn anghyfarwydd gyda'r gwahanol systemau a sefydliadau. Medrant fod â chymwysterau, sgiliau a phrofiad gwaith na chânt eu cydnabod yma neu fod yn wynebu gwahaniaethu yn eu herbyn

Beth fedrwch chi wneud?

Yn 2008 byddwn eto'n gofyn i arweinwyr y pleidiau ac ymgeiswyr unigol yng Nghymru i ddangos eu cefnogaeth ac ymrwymo i beidio ymgyrchu'n negyddol ar faterion lloches a mewnfudo.

Fel arweinwyr yn ein cymunedau, mae gan wleidyddion gyfrifoldeb i roi gwybodaeth gywir ac i herio mythau peryglus ar faterion lloches a ffoaduriaid. Mae Cymru'n cael budd enfawr o gyfraniad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ffoaduriaid a cheiswyr lloches i'n cymdeithas. Gwaetha'r modd, mae llawer iawn o gamddealltwriaeth sylfaenol am ffoaduriaid a cheiswyr lloches gan arwain at ddrwgdeimlad a gwahaniaethu yn eu herbyn. Rydym yn lwcus yng Nghymru fod gennym arweinyddiaeth gref yn y maes hwn.

Rydym yn awyddus i sicrhau fod ymgyrchu gwleidyddol yn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2008 yn cryfhau yn hytrach na rhannu cymunedau ledled Cymru a byddwn yn gofyn i ymgeiswyr lofnodi'r datganiad dilynol:

"Rwy'n ymrwymo i beidio defnyddio delweddau negyddol o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ymgyrch yr etholiad. Byddaf yn anelu i hyrwyddo gwell dealltwriaeht o ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru."

Os hoffech ein cynorthwyo, byddem yn ddiolchgar pe ysgrifennech at eich ymgeiswyr lleol yn gofyn iddynt ymrwymo eu cefnogaeth.

Medrwch ddefnyddio'r daflen yma i'ch helpu i ymgyrchu'n gadarnhaol ar faterion lloches a mewnfudo.

Mae manylion pellach ar gael yn: **www.gwladimi.co.uk**